# Cofnodion Pwyllgor Dethol Sir Fynwy

**Cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf a gynhaliwyd Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK - County Hall, The Rhadyr, Usk ar Dydd Mawrth, 15fed Hydref, 2019 am 3.00 pm**

| **Cynghorwyr Yn Bresennol** | **Swyddogion Yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir (Cadeirydd) | Carl Touhig, Head of Neighbourhood Services |
| Cynghorydd Sir (Is-Gadeirydd) | Laura Carter, Senior Officer, Waste and Street Services |
| Cynghorwyr Sir: D. Dovey, R. Harris and V. Smith | Dewi Lane, Systems and Special Projects Officer |

Cynghorwyr Sir Hefyd yn Bresennol:

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr P. Clarke, A. Easson, L. Guppy, J.Treharne and A. Webb

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. **Strategaeth Sbwriel / Polisi Gwastraff a Chasgliadau a Safleoedd Amwynderau Dinesig**

   **Adroddiad perfformiad ar y Strategaeth Sbwriel, y Polisi Gwastraff a Chasgliadau a newidiadau i'r Safle Amwynderau Dinesig**

   Gwnaed gwaith craffu cyn gwneud penderfyniadau yn gynnar yn 2019 ynghylch y penderfyniad i gyflwyno trwyddedau yng Nghanolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu yn Sir Fynwy a gweithredu newidiadau gwasanaeth mewn rhai safleoedd. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi craffu ar y Polisi Casgliadau Gwastraff newydd a Strategaeth Sbwriel y Cyngor. Roedd y gwasanaeth wedi bwriadu adolygu'r newidiadau ar ôl eu cyflwyno. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i adroddiad perfformiad gael ei gyflwyno iddynt ar ôl i'r newidiadau cael eu gweithredu er mwyn mesur a yw'r newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir wedi bod yn llwyddiannus ac i drafod unrhyw oblygiadau ar breswylwyr y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy ymhellach. Roedd yr adroddiad yn amlinellu perfformiad ar y materion canlynol yn eu tro:

   - Cynnydd y Strategaeth Sbwriel
   - Goblygiadau'r Polisi Casglu Gwastraff newydd
   - Effaith cyflwyno trwyddedau i'r Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu
   - Effaith cau rhai o'r Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu a'r cyfeiriad posibl ar gyfer y gwasanaethau hyn

   **Her:**

   Strategaeth Sbwriel

   Roedd y cynnydd a ragwelwyd ar y Strategaeth Sbwriel wedi bod yn destun rhywfaint o oedi cychwynnol oherwydd bod ffrydiau ariannu newydd dim ond wedi cael eu cadarnhau gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar. Mae'r gwasanaeth wedi amlygu sut y byddai cadarnhau

ffrydiau ariannu'n gynharach yn galluogi cynllunio mwy effeithiol ar gyfer defnyddio arian er mwyn cyflawni'r Strategaeth Sbwriel. Heriodd y pwyllgor y swyddogion fel a ganlyn:

- O ran diffinio "sbwriel", a fyddai gwastraff gardd sy'n dechrau cyflwyno ymddangosiad gwael yn cael ei ddiffinio fel "sbwriel"?
  *Rydym yn cymryd y farn mai "sbwriel" yw unrhyw ddeunydd ar ôl yn y lle anghywir, felly byddai hynny'n cael ei ystyried yn "sbwriel".*
- Roeddem yn pryderu y gallai fod cynnydd mewn tipio anghyfreithlon o ganlyniad i gyflwyno newidiadau gwasanaeth i Ganolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu. A yw hyn wedi digwydd?
- *Mae riportio tipio anghyfreithlon wedi cynyddu, ond credwn y gallai hyn fod o ganlyniad i'r canfyddiad y byddai'n cynyddu o ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd gennym, oherwydd nid ydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn gwirionedd ers i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith.*
- Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ail-ddynodi rhai o'r ardaloedd gorffwys fel "cilfachau". A fydd goblygiadau cost i ni o ganlyniad i'r newid hwn ac a fydd Llywodraeth Cymru yn cynnig unrhyw gyfraniad i ni tuag at gynnal a chadw'r ardaloedd hyn yn y dyfodol? A fydd y bloc toiledau sy'n anaddas i'w ddefnyddio ac sydd ar gau ar hyn o bryd yn cael ei ddileu?
  *Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gorffen dynodi'r safleoedd yn gilfachau, bydd cyfrifoldeb y rheini yn disgyn yn ôl i ni ac nid oes unrhyw awgrym ar hyn o bryd o unrhyw gyfraniad tuag at gynnal yr ardaloedd hyn. Rydym hefyd yn ansicr beth fydd yn digwydd i'r bloc toiledau sydd ar gau.*
- Rydym yn sylwi bod grŵp amgylcheddol Llanfihangel Crucornau wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod hwn ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny, ond sut mae eu gwaith wedi mynd rhagddo ers iddynt adrodd i'r Pwyllgor hwn?
  *Mae'r rhaglen wedi mynd yn dda iawn, mae'r grŵp yn treialu sticeri amrywiol ar finiau gwastraff ac yn adrodd bod gostyngiad mawr wedi bod yn y sbwriel yn dilyn y newidiadau. Byddwn yn eu gwahodd yn ôl i'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.*
- A yw'r sbwriel oherwydd y bobl sy'n gyrru drwy'r ardal?
  *Ydy, mae'r sbwriel oherwydd taflu sbwriel "wrth yrru heibio" yn bennaf. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn annog yr angen am ddeddfwriaeth i erlyn troseddwyr (ar hyn o bryd nid oes gennym y ddeddfwriaeth hon yng Nghymru).*

<u>Goblygiadau'r Polisi Casglu Gwastraff newydd</u>

- Rydym wedi clywed bod rhai problemau cychwynnol pan gyflwynwyd y Polisi Casglu Gwastraff o ran colli casgliadau. A allwch egluro'r materion hynny a'r hyn yr ydych wedi'i wneud i'w goresgyn?
  *Un o'r prif wersi a ddysgwyd a gyfrannodd at y casgliadau a fethwyd oedd addasrwydd y cerbyd i gynnal y casgliadau mewn ardaloedd lle nad oedd llawer o le, naill ai oherwydd ffyrdd bach neu gerbydau wedi'u parcio. Rydym wedi canfod nad yw broblem oherwydd bod y cerbyd â'r dyluniad anghywir neu eu bod yn rhy fawr, ond yn hytrach bod yr ardal yr oedd y cerbyd wedi yn cael ei anfon yno yn rhy fach. O ran sut rydym wedi datrys hyn, rydym bellach wedi gwneud yn siŵr bod gan bawb y casgliad cywir gyda'r cerbyd cywir.*
- A yw'r materion ynghylch capasiti wedi'u datrys?
  *Cawsom rywfaint o drafferth i benderfynu ar gapasiti'r cerbydau a'r staff i gwblhau'r rowndiau ~ mewn rhai achosion, roedd y rowndiau'n rhy fawr ac yn heriol. Mae'n anodd iawn cydbwyso ac rydym am osgoi defnyddio gormod o*

*adnoddau. O ran y Cynllun Datblygu Lleol a thai yn y dyfodol, os caiff ystadau presennol eu hymestyn ar raddfa fach, dylai'r rowndiau allu ymdopi, ond pe bai ystâd fawr newydd yn cael ei hadeiladu, byddai angen mwy o gapasiti o ran fflyd. Y trothwy yw tua 1000 o dai, a fyddai'n gofyn am gylch newydd a sawl cerbyd newydd, ond byddai eiddo newydd yn darparu incwm o'r dreth gyngor a fyddai o gymorth, pe bai'r tai ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel pwysau ariannol.*

- Beth yw'r heriau eraill rydych chi wedi dod ar eu traws a sut ydych chi wedi eu datrys?
- *Rydym wedi dysgu gwersi o'r gweithredu ac yn aml iawn gellid mynd i'r afael yn syml â'r newidiadau a gafodd effaith fawr. Er enghraifft, roedd y mapiau cychwynnol a roddwyd gennym yn rhy anodd i'w darllen, felly aethom i'r afael â hynny. Anfonom lythyrau at breswylwyr hefyd drwy'r Post Brenhinol, ond nid oeddem wedi ystyried y ffaith na fyddai'r Post Brenhinol yn eu dosbarthu dros y penwythnos, felly roedd pobl yn cael y wybodaeth yn rhy hwyr. Rhan o'r broblem hefyd oedd bod y broses o weithredu hyn yn cyd-ddigwydd â gostyngiad yn nifer y staff yn y Ganolfan Gyswllt. Nid oes gan y chatbot Monty y gallu i roi atebion i gwestiynau cymhleth a oedd yn gofyn am ymyrraeth ddynol, ac roedd hyn yn ychwanegu at rwystredigaeth y cyhoedd pan oedd pobl am wybod pryd oedd eu casgliad sbwriel. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn nawr drwy gael system wahanol i reoli cwynion a byddem yn awr yn sicrhau bod gennym oruchwyliwr dynodedig i reoli'r raddfa hon o newid unwaith eto.*
- Deallwn y gall gwahanol ffyrdd o gyfathrebu achosi anhrefn, ond a yw'r system ar gyfer adrodd ar faterion yn symlach? Ydych chi'n credu y gallai bod cael cymaint o ffyrdd o adrodd ar faterion yn ddryslyd ac a oedd dyblygu o ran galwadau yn cael eu cofnodi drwy'r ganolfan gyswllt a thrwy'r ap Fy Sir Fynwy?
- *Cawsom broblemau mawr gyda chyfathrebu ac nid oedd gennym ddigon o staff yn y ganolfan gyswllt i ddelio â'r nifer o alwadau. Cawsom gyfnod brig o ran cwynion ac roedd prosesau gwaith dyblyg oherwydd bod galwadau yn cymryd amser i'w prosesu. Pan fyddwn yn gweithredu newid gwasanaeth y tro nesaf, byddem yn sicrhau bod staff yn y swyddfa i ymdrin yn benodol â chwynion. Roedd y rhain yn newidiadau enfawr ac roeddem wedi dweud hyn wrth y cyhoedd, ond nid oeddem yn cydnabod lefel y cymhlethdod o ran y wybodaeth yr oedd ei hangen arnom i ddarparu i'r cyhoedd. Rydym wedi dysgu o hyn. Mae Matthew Gatehouse wedi cytuno i adrodd yn ôl ar y chatbot Monty a chyfathrebu'n gyffredinol.*
- A ydym yn hyderus nawr bod cwynion yn cael eu datrys?
  *Ydym, ond rydym yn dal i gael cwynion am y rownd gwastraff gardd. Credwn fod y cynnydd sydyn mewn cwynion o ganlyniad i sefyllfa'r tywydd, ond mae'n rhaid i ni reoli hynny a chydbwyso'r criwiau a'r capasiti yn unol â hynny. Un o'r anawsterau fu trefnu'r rowndiau ac wrth i bobl dalu am y cynllun, mae'n bwysig iawn ei fod yn cael ei wneud yn iawn.*
- Rydym yn cydnabod bod y rhain wedi bod yn amseroedd digyffelyb i chi o ran newidiadau i gasglu gwastraff, ond ymddengys eich bod wedi myfyrio'n fanwl ar y broses weithredu a sut y gallwch fynd i'r afael â chamgymeriadau a wnaed a dysgu oddi wrthynt. Ydych chi'n gwneud dadansoddiad ôl-weithredu er mwyn dysgu o'ch profiadau?
  *Do, ar ddiwedd y gwaith, ym mis Ebrill/Mai, fe wnaethom adolygiad o'r hyn a aeth yn dda/ddim cystal, ac fe wnaethom logio materion fel ein bod ni'n eu deall.*

*Gwnaethom newidiadau mor sylweddol ym mis Gorffennaf a effeithiodd ar dros 5000 o eiddo, felly rydym wedi dysgu o'r profiadau ym mis Mawrth a byddwn yn parhau i ddysgu o'n profiadau fel nad ydym yn gwneud camgymeriadau eto. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfle i ddod â'n portffolio drwy'r broses graffu gan fod y Pwyllgor yn cynnig seinfwrdd defnyddiol iawn i ni, ac rydym yn gweld hyn yn amhrisiadwy i ni o ran ein helpu i hunanwerthuso a myfyrio ar ein profiadau.*

- Rydych wedi cael profiad o rai problemau mewn perthynas â'r system gwastraff gardd. A ydych yn cyfyngu nifer y casgliadau ar ddiwrnod penodol, fel eich bod yn gwybod yn union faint o gasgliadau fydd ar y rownd?
  *Gall preswylwyr brynu cymaint o fagiau ag y dymunant ac wrth iddo gael ei fapio, mae gennych syniad bras yn seiliedig ar y flwyddyn flaenorol faint o fagiau fydd ar y rownd, ond nid yw'n fanwl gywir. Mae'n ymddangos yn amcangyfrif cywirach am yr ardaloedd trefol, ond mewn ardaloedd gwledig, gall y rowndiau fod yn fawr iawn ac os oes llawer o fagiau, mae'n cymryd mwy o amser.*
- A allem gyfyngu nifer y bagiau ac yna annog eiddo mwy o faint i gompostio?
  *Mae gennym dargedau heriol o amgylch hyn ac os ydym yn darparu biniau neu fagiau, mae angen i ni weithio allan yr opsiwn gorau, gan fod hwn yn wasanaeth â thâl ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn ei gael yn iawn nid yn unig ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ar hyn o bryd nid yw'r gwasanaeth yn talu amdano'i hun ac mae angen i ni ymchwilio ymhellach i hyn a dychwelyd atoch gyda dewisiadau.*
- Fel gwasanaeth dewisol, credwn ei bod yn bwysig bod y gwasanaeth yn talu amdano'i hun, oherwydd ni fyddai'n deg i drethdalwyr y cyngor cyffredinol (er enghraifft, un person a allai fod yn byw mewn annedd fach) fod yn rhoi cymhorthdal i eiddo mawr.
  *Rydym yn cytuno ac mae hyn yn rhywbeth y mae angen i ni ddychwelyd ato a dod â thrafodaeth gyda chi ar sut i symud y gwasanaeth yn ei flaen.*
- O ran y bagiau polypropylen, ydych chi'n gwybod eto pa ardaloedd fydd yn cymryd rhan yn y peilot? Pa waith ydych chi'n mynd i'w wneud gydag Aelodau o flaen llaw?
  *Byddwn yn treialu un ym mhob rhanbarth storfa, felly bydd un yn Nhrefynwy, un yn Llangybi a Brynbuga ac un yng Nghaerwent/Cil-y-coed. Byddwn yn cynghori Aelodau o flaen llaw fel y gallant roi gwybod i'r cyhoedd mewn da bryd. Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, byddwn yn cyflwyno wedyn fesul cam. Y bwriad yw lleihau'r defnydd o fagiau plastig a chynyddu gwerth y deunydd eildro. Byddwn yn:*
  *Darparu enghreifftiau i'r aelodau o fagiau i'w dangos i'r cyhoedd a byddwn yn eu rhoi yn y canolfannau.*

<u>Effaith cyflwyno trwyddedau i'r Ganolfan Gwastraff Cartref ac Ailgylchu</u>

- Rydych wedi cyfeirio at newidiadau mewnol yn ddiweddar, beth fu effaith hyn?
  *Mae'r ailstrwythuro wedi dod â chyfeiriad cliriach o ran lle mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd a'r cyfeiriad y mae angen i'r gwasanaeth ei ddilyn yn y dyfodol. Er bod y gwasanaeth wedi dibynnu ar staff asiantaeth dros dro i weithio yn yr adran dros y cyfnod o newid, roedd staff bellach yn gweithio mewn swyddi parhaol a oedd wedi galluogi'r tîm i fod yn y sefyllfa iawn i symud y cyfeiriad strategol a gytunwyd yn ei flaen.*
- Beth fu effaith cyflwyno'r trwyddedau?

*Cyflwynasom y trwyddedau ym mis Mehefin i bob cartref, ond nid oedd pob aelwyd ar ein system, felly nid oedd rhai pobl wedi cael y wybodaeth na'u trwyddedau, ac rydym wedi datrys y rhain erbyn hyn. Ar y cyfan, mae'r gweithredu wedi bod yn llyfn ac mae pobl wedi deall beth yw diben hyn. Cawsom rywfaint o feirniadaeth gan y cyhoedd y tu allan i'r Sir, yn enwedig Casnewydd a Phowys. Mae'r newidiadau wedi lleihau ein costau'n sylweddol drwy beidio â chymryd gwastraff o siroedd eraill. I rai cymunedau ar y ffin sydd wedi gofyn am ddod â sbwriel atom am fod eu canolfan yn bellach i ffwrdd, rydym wedi'u galluogi i ddod â gwastraff i'n safleoedd os ydynt yn talu wrth y bont bwyso.*

- A ydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y gall pobl sy'n byw ar ffin Sir Fynwy ddod i dalu? Pa gyhoeddusrwydd rydym yn gwneud i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o hyn?
  *Rydym wedi rhoi cyhoeddusrwydd i hyn ar y wefan. Rydym wedi cael llawer o ymholiadau ar y mater hwn drwy'r cyfryngau, felly maent wedi bod yn ddefnyddiol o ran rhoi gwybod i bobl. Nid yw hyn yn cynhyrchu unrhyw refeniw i ni, ond rydym yn deall i rai cymunedau, mae hwn yn ddewis mwy ymarferol.*
- Ble'r ydym arni o ran ein cyfradd ailgylchu?
  *Rydym yn y chwartel gwaelod am y tro cyntaf erioed. Mae awdurdodau eraill wedi gwella eu harferion sydd wedi helpu eu cyfradd ailgylchu ac mae'r broses o gyflwyno trwyddedau wedi gostwng ein cyfradd ailgylchu. Mae angen i ni ystyried sut i godi ein cyfradd ailgylchu, ond byddai'r ymyriad tebygol yn galw am orfodi gwastraff bagiau du. Rydym yn cysylltu â Chynghorau Tref a Chymunedol er mwyn annog y cyhoedd i ailgylchu mwy ar ymyl y ffordd, yn hytrach na mynd â bagiau gwastraff du i'r canolfannau gwastraff cartref ac ailgylchu. Er enghraifft, roedd 38% o wastraff bagiau du a gymerwyd i ganolfan gwastraff cartref ac ailgylchu Brynbuga yn wastraff bwyd, y gellid bod wedi ei ailgylchu.*
- Ble'r ydym arni o ran gorfodi?
  *Mae'r polisi gorfodi wedi cael budd o fewnbwn aelodau. Y nod yw addysgu yn hytrach na chosbi pobl, fel mai gorfodi yw'r dewis olaf. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyfraddau ailgylchu o 75-80%, felly i gyrraedd hynny o 64%, mae gennym gryn ffordd i fynd. Caiff dyletswyddau gorfodi yn ymwneud â sbwriel eu cwmpasu o fewn rolau staff. Mae hysbysiad gorfodi Adran 46 yn aros gyda'r eiddo am byth, ond dyna'r dewis olaf mewn gwirionedd.*

**Canlyniadau a Chasgliad y Cadeirydd:**

- Rydym wedi craffu ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni ffrydiau gwaith mawr dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn teimlo bod y gwasanaeth wedi dysgu llawer o wersi ac wedi goresgyn yr heriau allweddol.
- Rydym yn falch o weld cynnydd ar waith trin â sbwriel a hoffem adolygu hyn eto gyda grŵp amgylcheddol Llanfihangel Crucornau i glywed cynnydd ar eu prosiectau.
- Hoffem gyflwyno trafodaeth yn y dyfodol am y Ganolfan Gyswllt a'r chatbot a bydd hyn yn cynnwys hyn yn ein blaenraglen waith.
- Rydym yn fodlon â'r broses o roi'r Polisi Casglu Gwastraff ar waith ac rydym yn fodlon bod y mater o ran casgliadau a fethwyd bellach wedi cael sylw. Yn yr un modd, mae'r pryderon ynghylch addasrwydd y cerbydau wedi'u datrys.
- Rydym yn cydnabod y bydd safleoedd tai newydd sydd heb eu diffinio eto yn y Cynllun Datblygu Lleol yn bwysau ariannol y mae angen eu hystyried.

- Credwn yn gryf fod angen i'r Polisi Gwastraff Gardd fod yn hunangynhaliol a gofynnwn i chi ddychwelyd atom i gael dadl bellach ar hyn ar yr adeg briodol.
- O ran y bagiau ailgylchu polypropylen newydd, gofynnwn i chi ymgysylltu â'r Aelodau a briffio'r cyhoedd drwy'r cyfryngau priodol. Yr ydym hefyd am gael mwy o gyhoeddusrwydd ynglŷn â'r opsiwn i gymunedau ar y ffin dalu i gael gwared ar sbwriel yn Sir Fynwy, os yw hynny'n fwy cyfleus iddynt.
- Rydym yn gofyn i'r Cabinet adolygu'r gweithrediadau yng nghanolfannau gwastraff cartref ac ailgylchu Llanfihangel Troddi a Brynbuga er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu.
- Rydym yn cefnogi'r strategaeth sbwriel a'r polisi gorfodi ac yn argymell bod y rhain yn cael eu cymeradwyo gan y Cabinet.

3. **<u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

**Gorffennodd y cyfarfod am 4.39 pm**